



Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru

22/01/2020

Annwyl Gyfaill

Ymgynghoriad ar radd-brentisiaethau

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â gradd-brentisiaethau.

Y tu hwnt i'r ffaith bod tua 15 y cant o unigolion sy'n astudio am radd brentisiaeth yn siarad Cymraeg, nid oes gennym wybodaeth benodol am sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni gradd-brentisiaeth. Golyga hyn nad ydym yn gwybod i ba raddau y mae'r prentisiaid hyn yn cyflawni eu prentisiaethau yn Gymraeg a thrwy hynny gynnal neu feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg. Er hyn, yn 2017 fe wnaethom gyhoeddi nodyn briffio ar 'Sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru'¹. Mae'n debygol bod rhai o brif ganfyddiadau'r nodyn briffio yn berthnasol i sefyllfa gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn ogystal. Roedd prif ganfyddiadau'r nodyn briffio fel a ganlyn:

- Bod y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau yn isel iawn
- Nad yw potensial rhaglenni prentisiaeth i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac i gefnogi datblygu gweithlu dwyieithog yn cael ei wireddu ar hyn o bryd
- Bod angen cynnal adolygiad pwrpasol o sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth
- Bod angen gwella'r ddealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau trwy ehangu'r ystod o ddata a gesglir ac a gyhoeddir ar hyn o bryd.

1

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20171114%20C%20Nodyn%20briffio%20Prentisiaethau%20%282%29.pdf>

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ers 2017 rydym wedi cynnal cyfarfodydd cyson gyda gweision sifil Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn y sector er mwyn tynnu sylw at yr argymhellion y nodyn briffio. Yn Rhagfyr 2018 fe gyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 'Gynllun gweithredu addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg'. Mae'r cynllun yn cynnwys cam gweithredu i fapio'r ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg presennol ac i ddefnyddio hynny fel sail ar gyfer nodi meysydd lle gellid datblygu fframweithiau newydd ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r cynllun yn pennu'r cyfrifoldeb am y gwaith hwn i Lywodraeth Cymru. Mae Cynllun Gweithredu 2019-20 strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi y bydd Cynllun Gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymgorffori datblygiadau i hybu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er y datblygiadau hyn, nid yw'n glir hyd yma be fydd traweffaith yr ymrwymadau hyn ar niferoedd sy'n astudio prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, nac ychwaith beth fydd effaith hyn ar radd-brentisiaethau.

Mae ymchwiliad y pwyllgor yn arbennig o berthnasol i'r ddau bwynt olaf yn ymwneud â chynyddu'r ddealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau. Fe fyddem yn croesawu unrhyw wybodaeth a thystiolaeth bellach am sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni gradd-brentisiaeth, a hyderwn y bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o'ch ymgynghoriad. Byddai gwybodaeth o'r fath yn hollbwysig wrth osod cyfeiriad ar gyfer datblygiadau pellach yn y dyfodol, ac er mwyn sicrhau bod cynifer â phosib o brentisiaethau yn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg myfyrwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg